# Cam 2: O ble mae ein cynhwysion yn dod?

## Amcanion dysgu

- I adnabod a disgrifio strwythur syml planhigion blodeuol cyffredin, gan gynnwys coed
- I ddeall o ble mae bwyd yn dod

## Trosolwg cam

Yn y cam hwn, mae'r plant yn dysgu enwi amrywiaeth o blanhigion a choed ffrwythau a labelu eu rhannau. Yna maent yn archwilio ystod o hadau ffrwythau ac yn disgrifio eu priodweddau gan ddefnyddio iaith gymharol.

## Deunyddiau sydd eu hangen

- Ystod o ffrwythau gyda hadau sy'n hawdd cael atynt e.e. afalau, mefus, ceirios, grawnwin
- Compost
- Potiau planhigion

## Nodiadau cyflwyniad

| | |
|---|---|
| Sleid 2:<br>O ble mae ein cynhwysion yn dod? | • Esboniwch i'r plant y bydd yr holl gynhwysion y maen nhw'n mynd i'w defnyddio ar gyfer eu caffis iogwrt wedi cael eu tyfu neu eu cynhyrchu ym Mhrydain.<br>• Esboniwch fod defnyddio cynhwysion sy'n cael eu tyfu ym Mhrydain yn un ffordd y gallwn ni ofalu am yr amgylchedd oherwydd ei fod yn lleihau pa mor bell y mae'n rhaid i'r bwyd deithio i gyrraedd ein platiau. Mae hyn yn lleihau'r angen am gludiant, gan leihau llygredd aer.<br>• Cyn i ni ddechrau gwneud ein pwdinau baner iogwrt blasus ar gyfer ein caffis, rydyn ni'n mynd i ddysgu o ble mae ein holl gynhwysion wedi dod. |
| Sleid 3:<br>Iogwrt | • Esboniwch fod iogwrt yn gynnyrch llaeth.<br>• Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n gwybod o ble mae llaeth yn dod.<br>• Esboniwch fod llaeth yn dod o fuchod godro ac ychwanegir bacteria arbennig, diniwed i'w droi'n iogwrt.<br>• A all y plant enwi unrhyw fwydydd eraill sy'n cael eu gwneud gan ddefnyddio llaeth? |
| Sleid 4:<br>Ffrwyth | • Heriwch y plant i enwi cymaint o ffrwythau ag y gallant.<br>• Ydyn nhw'n gwybod o ble mae ffrwythau'n dod?<br>• Esboniwch fod ffermwyr yn plannu hadau bach. Os rhoddir popeth sydd ei angen arnynt i fod yn iach, bydd yr hadau hyn yn tyfu i fod yn blanhigion a choed a fydd yn rhoi ffrwythau a llysiau inni. |

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.

| | |
|---|---|
| Sleid 5-6:<br>Rhannau o blanhigyn | • Rhannwch y diagram o'r planhigyn a gofynnwch i'r plant a allan nhw enwi unrhyw un o'r rhannau.<br>• Rhannwch y labeli a mynd i'r afael ag unrhyw gamdybiaethau. |
| Sleid 7-8:<br>Rhannau o goeden | • Rhannwch y diagram o'r goeden a gofynnwch i'r plant a allan nhw enwi unrhyw un o'r rhannau.<br>• Rhannwch y labeli a mynd i'r afael ag unrhyw gamdybiaethau. |
| Sleid 9-13:<br>Ffrwythau Prydeinig | • Defnyddiwch y sleidiau cyflwyniad i egluro i'r plant sut mae ystod o ffrwythau poblogaidd o Brydain yn cael eu tyfu. Rhowch gyfleoedd i'r plant rannu eu profiadau eu hunain o'r ffrwythau. Ydyn nhw wedi gweld coed neu blanhigion ffrwythau o'r blaen? Heriwch nhw i gadw llygad amdanyn nhw yn eu hardaloedd lleol.<br>• Wrth ichi fynd trwy'r cyflwyniad, rhowch gyfleoedd i'r plant gymhwyso eu dysgu newydd ac enwi gwahanol rannau o'r coed a'r planhigion. |
| Sleid 14:<br>Archwilio a disgrifio hadau | • Dangoswch sut i dorri amrywiaeth o ffrwythau i ddod o hyd i'r hadau.<br>• Modelwch sut i ddefnyddio cyllell yn ddiogel ac yn gywir a rhowch gyfle i'r plant dorri rhywfaint o'r ffrwythau drostynt eu hunain e.e. grawnwin yr un.<br>• Fel arall, fe allech chi roi ffrwythau i'r plant gyda hadau sy'n haws eu cyrraedd heb gyllell fel ceirios a mefus.<br>• Gofynnwch i'r plant ddisgrifio'r hadau maen nhw wedi'u casglu gan ddefnyddio iaith gymharol e.e. mae'r had mefus yn llai na'r had afal. Mae gan y mefus fwy o hadau na'r ceirios.<br>• Efallai yr hoffech chi hefyd roi cyfle i'r plant blannu un o'u hadau a mynd â nhw adref a gofalu amdano. |

## Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

| **Maes** | **Pwnc** | **Amcan** |
|---|---|---|
| Gwyddoniaeth | Planhigion | • Adnabod ac enwi ystod o blanhigion gwyllt a gardd cyffredin, gan gynnwys coed collddail a bythwyrdd.<br>• Adnabod a disgrifio strwythur syml ystod o blanhigion blodeuol cyffredin, gan gynnwys coed. |
| Dylunio a Thechnoleg | Coginio a maeth | • Deall o ble mae bwyd yn dod. |
| Mathemateg | Mesur | • Cymharu, disgrifio a datrys problemau ymarferol ar gyfer:<br>– Hyd a thaldra [er enghraifft, hir/byr, hirach/byrach, tal/byr, dwbl/hanner]<br>– Mas/pwysau [er enghraifft, trwm/ysgafn, trymach na/ysgafnach na]<br>– Cynhwysedd a chyfaint [er enghraifft, llawn/gwag, mwy na, llai na, hanner, hanner llawn, chwarter]. |

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.